HAF 2021

GWYBODAETH I DDYSGWYR

Anfonwyd drwy e-bost i bob ysgol a choleg yng Nghymru

23 Mawrth 2021

Annwyl Ddysgwr

Gwnaethom ysgrifennu atoch ar 4 Mawrth gyda gwybodaeth am asesiadau TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2021. Gwnaethom roi llinell amser dyddiadau allweddol i chi, a gwybodaeth am y broses apelio a materion cydraddoldeb. Heddiw rydym wedi cyhoeddi fersiwn 3 o'n canllawiau ar gyfer ysgolion a cholegau. Mae mwy o wybodaeth am y dull asesu ar gyfer haf 2021, llwybrau ar gyfer ymgeiswyr preifat a chymwysterau galwedigaethol. Rydym hefyd wedi cyhoeddi gwybodaeth am y dull asesu ar gyfer haf 2022.

Dull asesu ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy yn haf 2021

Bydd eich ysgol neu goleg yn dweud wrthych yn fuan am y cynllun asesu cyffredinol y byddant yn ei ddefnyddio i benderfynu ar eich graddau eleni (neu efallai eu bod eisoes wedi amlinellu hyn i chi). Ni ddylai eich ysgol neu goleg ddarparu **manylion penodol** o'r cwestiynau asesu a fydd yn cael eu defnyddio. Y rheswm am hyn yw ei bod yn bwysig bod yr asesiadau'n rhoi darlun clir o lefel eich cyrhaeddiad yn y pwnc.

Sicrhau ansawdd graddau dros dro a bennwyd gan ganolfannau yn ystod haf 2021

Yn ein canllawiau diweddaraf, rydym wedi rhoi gwybodaeth i'ch ysgol neu goleg am sut y bydd CBAC yn adolygu'r graddau dros dro i'ch ysgol neu goleg. Unwaith y bydd graddau dros dro yn cael eu hanfon at CBAC, bydd CBAC yn edrych ar batrwm cyffredinol y graddau ar gyfer eich ysgol neu goleg. Os oes unrhyw faterion i'w codi, ni fydd CBAC yn newid unrhyw raddau, ond bydd yn eu trafod gyda'ch ysgol neu goleg. Mae hyn er mwyn rhoi hyder i chi, eich rhieni neu ofalwyr a'r rhai sy'n defnyddio'r graddau hyn (cyflogwyr a sefydliadau addysg uwch). Mae'n adeiladu ar rannau eraill o'r prosesau sicrhau ansawdd sydd ar waith eleni, sydd â'r nod o ddarparu cysondeb yn y dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a cholegau ledled Cymru.

Ymgeiswyr Preifat

Rydym wedi darparu canllawiau ychwanegol i ysgolion a cholegau am y trefniadau ar gyfer ymgeiswyr preifat sy'n dilyn cymwysterau cymeradwy i Gymru'n unig a gynigir gan CBAC eleni. Mae'r wybodaeth hon yn bwysig i ddysgwyr nad ydynt wedi cofrestru mewn ysgol neu goleg ac sydd angen canolfan i gytuno i'w cofrestru ar gyfer cymhwyster. Mae hyn yn cynnwys TGAU, UG a Safon Uwch CBAC a chymwysterau'r Dystysgrif Her Sgiliau. Mae dau lwybr ar gyfer ymgeiswyr preifat: llwybr wedi'i asesu gan y ganolfan a llwybr wedi'i gynnal gan y ganolfan.

- **Llwybr wedi'i asesu gan y ganolfan** - Os ydych yn ymgeisydd preifat ac rydych eisoes yn adnabod ysgol neu goleg sydd eisoes wedi cytuno i'ch cofnodi ar gyfer cymhwyster, gall hyn barhau yn ôl y bwriad. Bydd yr ysgol neu'r coleg yn eich asesu gan ddefnyddio'r un dull ag ar gyfer eu dysgwyr eu hunain. Bydd yr ysgol neu'r coleg yn cynhyrchu eich Gradd a Bennir gan y Ganolfan, a bydd yn adolygu eich gradd cyn ei hanfon i CBAC, os byddwch yn gofyn am hynny. Bydd angen i'r ysgol neu goleg ddilyn canllawiau Cymwysterau Cymru a gofynion CBAC er mwyn cynhyrchu Gradd a Bennir gan y Ganolfan.
- **Llwybr wedi'i gynnal gan y ganolfan** – Os ydych yn ymgeisydd preifat ac nad oes gennych ysgol neu goleg sydd eisoes wedi cytuno i'ch cofrestru ar gyfer cymhwyster, byddwch yn gallu defnyddio'r llwybr hwn. Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn gweithio i nodi ysgolion neu golegau ledled Cymru a fydd yn cofrestru ymgeiswyr preifat. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhestr o'r canolfannau hyn ar 12 Ebrill a byddwn yn rhannu'r ddolen â chi.

Os ydych yn ymgeisydd preifat sy'n astudio ar gyfer cymwysterau TGAU, UG neu Safon Uwch nad ydynt wedi'u cymeradwyo ar gyfer Cymru yn unig, a gynigir gan CBAC, bydd mwy o wybodaeth yn cael ei chyhoeddi cyn bo hir.

Cymwysterau galwedigaethol - Bydd Ofqual yn cyhoeddi offeryn esbonio ddydd Mercher a fydd yn cynnwys gwybodaeth lefel uchel am y dull gweithredu ar gyfer pob cymhwyster galwedigaethol, gan gynnwys y rhai sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru. Bydd gwybodaeth fanylach am y dulliau gweithredu ar gyfer cymwysterau a fydd yn derbyn Gradd a Bennir gan Ganolfan ar gael gan y cyrff dyfarnu dros gyfnod y Pasg.

Dulliau asesu ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau yn haf 2022

Rydym wedi cyhoeddi heddiw y bydd gofynion asesu ar gyfer cymwysterau a gymeradwywyd yng Nghymru yn unig a gynigir gan CBAC yn haf 2022 yn cael eu haddasu. Credwn fod angen hyn nawr oherwydd y tarfu a fu ar eich dysgu oherwydd y pandemig. Bydd CBAC yn ymgynghori â'ch

athrawon a'ch darlithwyr, i ddeall beth y dylid ei addasu. Yna bydd mwy o wybodaeth am y dull yn cael ei chyhoeddi gan CBAC ym mis Mai.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau penodol, cysylltwch â'r tîm ymgysylltu â rhanddeiliaid neu e-bostiwch cyfathrebu@cymwysteraucymru.org.

Yn gywir,

Philip Blaker
Prif Weithredwr